



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lefi ymwelwyr yng Nghymru

Beth yw eich barn?



Hawdd
ei Ddeall

Cynnwys

Tudalen

Rhagymadrodd	3
Ymwelwyr yng Nghymru	4
Amdanoch chi	6
Beth yw eich barn?	7
Camau nesaf	56
Am ragor o wybodaeth	57



Yn y ddogfen Hawdd i'w Darllen hon, mae geiriau anodd mewn print **du**. Rydym yn esbonio beth mae'r geiriau hyn yn eu golygu yn y frawddeg ar ôl i ni eu defnyddio.



Mae rhai geiriau yn [las ac wedi'u tanlinellu](#).
Dolenni yw'r rhain fydd yn mynd i wefan arall sydd â rhagor o wybodaeth.

Rhagymadrodd



Mae Llywodraeth Cymeu yn meddwl am reolau newydd sy'n caniatáu i gynghorau lleol godi ar bobl sy'n ymweld â'u hardal, fel twristiaid. Gelwir hyn yn lefi ymwelwyr.



Byddai pob cyngor yn defnyddio'r arian i wella eu hardal ac i annog rhagor o bobl i ymweld yn y dyfodol.



Cyn i ni wneud penderfyniad am y rheolau newydd, mae eisiau gwybod eich barn arnom am ein syniadau.



Dywedwch wrthym beth yw eich barn trwy ddarllen yr wybodaeth hon ac ateb y cwestiynau.



Mae angen eich atebion arnom erbyn Dydd Mawrth, 13 Rhagfyr 2022.

Ymwelwyr yng Nghymru



Mae ymwelwyr yn bwysig iawn y Gymru.



Yn 2019, gwariodd ymwelwyr bron 6 biliwn o bunnoedd yn yr ardaloedd lleol y gwnaethant ymweld â nhw yng Nghymru.



Mae hyn yn helpu pobl leol a busnesau.



Mae gan dros 1 mewn 10 o bobl yng Nghymru swyddi sy'n ymwneud ag ymwelwyr.



Ond mae cael llawer o ymwelwyr yn gallu bod yn anodd i rai gwasanaethau, fel ambiwlansys a ffyrdd, oherwydd eu bod yn brysurach o lawer.



Lefi ymwelwyr

Mae pobl leol yn rhoi arian eisoes i'w cyngor i dalu tuag at wasanaethau lleol.



Byddai lefi ymwelwyr yn golygu y byddai ymwelwyr hefyd yn helpu i dalu tuag at wasanaethau lleol.



Byddai hyn yn golygu y gallai cynghorau wario rhagor ar y gwasanaethau hynny i gynorthwyo pobl leol ac ymwelwyr.



Gallai hyn wneud yr ardaloedd hynny yn well i bawb, ac yn annog hyd yn oed mwy o ymwelwyr i ddod yn y dyfodol.



Ar hyn o bryd, rydym yn awgrymu lefi ymwelwyr i ymwelwyr sy'n aros dros nos yng Nghymru.



Yn y dyfodol, gallem feddwl am lefi ymwelwyr sy'n dod i Gymru am y dydd.

Amdanoch chi



Beth yw eich enw?



Beth yw eich e-bost?



Beth yw eich rhif teleffon?



Beth yw eich cyfeiriad?

Beth yw eich barn?



Byddai lefi ymwelwyr yn golygu y byddai pobl leol ac ymwelwyr yn talu am wasanaethau lleol.

Rydym yn meddwl bod hyn yn decach na phobl leol yn unig yn talu.



Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai cynghorau allu gosod lefi ymwelwyr er mwyn i ymwelwyr allu helpu talu mwy am wasanaethau lleol, fel mae pobl leol yn ei wneud eisoes?

☐ Cytuno

☐ Anghtuno



Pam ydych chi'n meddwl hyn?



Ar hyn o bryd, dim ond meddwl ydym ni am dreth ymwelwyr i bobl sy'n aros dros nos yng Nghymru.



Ond yn y dyfodol, gallem gael lefi ymwelwyr i bobl sy'n dod am y dydd yn unig.



Cwestiwn 2: Beth yw eich barn am gael treth ymwelwyr am bethau eraill, fel pobl sy'n dod am y dydd yn unig?



Rydym yn meddwl y dylai'r rhan fwyaf o'r rheolau ar gyfer sut mae'r lefi ymwelwyr yn gweithio fod yr un peth i bob cyngor.



Ond gallai fod yn dda i bob cyngor lleol benderfynu rhai rheolau eu hunain, megis faint ddylai'r lefi ymwelwyr fod.



Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y byddai'n dda i bob cyngor lleol benderfynu ar rai rheolau eu hunain?

☐

Cytuno

☐

Anghytuno



Pam ydych chi'n meddwl hyn?



Cwestiwn 4: Oes unrhyw reolau lefi ymwelwyr eraill y dylai cynghorau lleol allu rheoli mwy?



Pam ydych chi'n meddwl hyn?



Cwestiwn 5: Rydym yn meddwl y dylai lleoedd fel gwestyau a Gwely a Brecwast gasglu'r lefi ymwelwyr gan bobl ac yna anfon yr arian at y bobl fel 10 y lefi ymwelwyr. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â hyn?

☐ Cytuno

☐ Anghytuno



Pam ydych chi'n meddwl hyn?



Cwestiwn 6: Pryd ddylai ymwelwyr dalu'r lefi ymwelwyr?

☐

Pan fyddant yn cyrraedd y fan lle maen nhw'n aros

☐

Pan fyddant yn gadael y fan lle maen nhw wedi aros

☐

Cyn iddynt gyrraedd y fan lle maen nhw'n aros, os ydynt wedi talu am y fan lle maen nhw'n aros cyn iddynt gyrraedd yno



Pam ydych chi'n meddwl hyn?



Cwestiwn 7: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno mai mater i fannau fel gwestyau a Gwely a Brecwast ddylai fod casglu a thalu'r lefi ymwelwyr?

☐

Cytuno

☐

Anghytuno



Pam ydych chi'n meddwl hyn? Os ateboch chi 'anghytuno', beth ddylem ni wneud yn hytrach?



Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai ymwelwyr sy'n aros mewn mannau fel gwestyau a Gwely a Brecwast orfod talu'r lefi ymwelwyr, oni bai eu bod yn rhan o grŵp sydd ddim yn gorfod talu'r lefi ymwelwyr?

☐ Cytuno

☐ Anghytuno



Pam ydych chi'n meddwl hyn?

Cwestiwn 9: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r grwpiau hyn beidio â gorfod talu'r lefi ymwelwyr:



a) Arosiadau mewn safleoedd Roma a Theithwyr Sipsiwn?

☐

Cytuno

☐

Anghytuno



b) Arosiadau wedi'u trefnu gan y cyngor i ddilyn y gyfraith, fel rhoi rhywle i gysgu i bobl ddigartref am gyfnod byr?

☐

Cytuno

☐

Anghytuno



Pam ydych chi'n meddwl hyn?



c) Arosiadau wedi'u trefnu gan Lywodraeth y DU i ddilyn y gyfraith, fel rhoi rhywle i aros i ffoaduriaid?

- ☐ Cytuno
- ☐ Anghytuno



Pam ydych chi'n meddwl hyn?



d) Arosiadau wedi'u trefnu gan elusennau a sefydliadau eraill i helpu pobl, fel rhoi rhywle i aros i bobl ddigartref a ffoaduriaid?

- ☐ Cytuno
- ☐ Anghytuno



Pam ydych chi'n meddwl hyn?



Cwestiwn 10: Oes unrhyw grwpiau eraill rydych chi'n meddwl na ddylai orfod talu'r lefi ymwelwyr?

Ticiwch bob un rydych chi'n meddwl na ddylai dalu:

- ☐ Plant a phobl ifanc
- ☐ Arosiadau lle maen nhw'n ymweld i weld meddyg
- ☐ Pobl anabl
- ☐ Eraill, dywedwch os gwelwch chi'n dda:



Pam ydych chi'n meddwl hyn?



O'r grwpiau rydych wedi'u dewis, sut ydych chi'n meddwl y byddai peidio â chodi arnynt yn gweithio?



Cwestiwn 11: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r gyfraith newydd ddweud pa grwpiau sydd ddim yn gorfod talu'r lefi ymwelwyr?

☐ Cytuno

☐ Anghytuno



Pam ydych chi'n meddwl hyn?



Rydym yn meddwl y dylai pob ardal gael yr un rheolau ynglŷn â phwy sydd a phwy sydd ddim yn gorfod talu'r lefi ymwelwyr.



Ond gallai fod adegau nad ydym wedi meddwl amdanynt lle dylai cynghorau wneud eu rheolau eu hunain.



Cwestiwn 12: Ydych chi'n meddwl y dylai cynghorau allu gwneud eu rheolau eu hunain?

☐

Ydw

☐

Nac ydw



Pam ydych chi'n meddwl hyn?



Cwestiwn 13: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai pob llety ymwelwyr orfod codi'r lefi ymwelwyr?

Llety ymwelwyr yw mannau lle mae ymwelwyr yn talu i aros, fel gwestyau, Gwely a Brecwast ac Airbnb.

☐ Cytuno

☐ Anghytuno



Pam ydych chi'n meddwl hyn?



Cwestiwn 14: Oes unrhyw fath o lety ymwelwyr rydych chi'n meddwl na ddylai orfod codi'r lefi ymwelwyr?

☐

Oes

☐

Nac oes



Os dywedoch chi oes, dywedwch wrthym am ba fath o lety rydych chi'n meddwl na ddylai orfod codi'r lefi ymwelwyr?



Os dywedoch chi nac oes, dywedwch pam wrthym?



Cwestiwn 15: A ddylem gael rhestr o bob lle sy'n darparu llety ymwelwyr, i'n helpu ni i reoli'r lefi ymwelwyr?

☐

Dylem

☐


Na ddylem



Pam ydych chi'n meddwl hyn?




I gael lefi ymwelwyr, byddai angen rhestr arnom o'r holl lety yng Nghymru.



Un ffordd o wneud hyn fyddai gwneud i bob llety gael dogfen o'r enw trwydded, os ydynt yn codi ar bobl i aros.

Wedyn byddai pob llety â thrwydded yn codi'r lefi ymwelwyr.



Cwestiwn 16: Ydych chi'n meddwl bod gwneud i lety gael trwydded yn ffordd dda o wneud rhestr o'r holl lety yng Nghymru?

☐

Ydw

☐

Nac ydw



Pam ydych chi'n meddwl hyn?



Cwestiwn 17: Pa un o'r rhain ydych chi'n meddwl fyddai'r ffordd orau i godi ar gyfer y lefi ymwelwyr

Talu am bob ystafell a ddefnyddir, pob nos mae rhywun yn ei defnyddio

☐

Talu am bob unigolyn, pob nos mae'n aros

☐

Talu swm penodol o gyfanswm y bil, fel 5c am bob punt

☐

Cymysgedd o'r rhain



Pam ydych chi'n meddwl hyn?



Cwestiwn 18: Rydym yn meddwl y dylai'r holl gynghorau godi am y lefi ymwelwyr yn yr un ffordd. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno?

☐

Cytuno

☐

Anghytuno

Cwestiwn 19: Dywedwch wrthym beth yw eich barn am y syniadau hyn:



- a) Sut ydych chi'n meddwl y byddai talu am ystafelloedd bob nos mae rhywun yn eu defnyddio yn effeithio ar:



Gwmniau a phobl sy'n darparu llety i ymwelwyr?



Sefydliad y llywodraeth sy'n casglu treth?



Ymwelwyr?



b) Sut ydych chi'n meddwl y byddai talu am bob unigolyn, pob nos maen nhw'n aros, yn effeithio ar:



Gwmniau a phobl sy'n darparu llety i ymwelwyr?



Sefydliad y llywodraeth sy'n casglu treth?



Ymwelwyr?



c) Sut ydych chi'n meddwl y byddai talu swm penodol o gyfanswm y bil, fel 5c am bob punt yn effeithio ar:



Gwmnïau a phobl sy'n darparu llety i ymwelwyr?



Sefydliad y llywodraeth sy'n casglu treth?



Ymwelwyr?




Cwestiwn 20: Pan fyddwn yn dewis pa ffordd i godi'r lefi ymwelwyr, beth ddylem ni feddwl amdano i sicrhau ein bod yn codi swm teg?



Er enghraifft, lleoedd yn cael symiau gwahanol o ymwelwyr ar adegau gwahanol o'r flwyddyn.

A large, empty rectangular box with a black border, intended for the user to write their answer to the question.



Cwestiwn 21: Ddylem ni godi rhagor am lety drutach, a llai am lety rhatach?

☐ Dylech

☐ Na ddylech



Pam ydych chi'n meddwl hyn?



Cwestiwn 22: Ydych chi'n meddwl y dylem ni beidio â chodi'r lefi ymwelwyr i bobl sy'n aros mewn llety am fwy na...

☐ 5 noson?

☐ 7 noson?

☐ 14 noson?

☐ Nifer arall o nosweithiau, dywedwch os gwelwch chi'n dda:



Pam ydych chi'n meddwl hyn?



Cwestiwn 23: Ddylem ni godi'r un swm ledled Cymru?

☐


Dylech

☐

Na ddylech



Pam ydych chi'n meddwl hyn?



Cwestiwn 24: Os yw cynghorau lleol yn dewis faint i'w godi, ddylen nhw godi'r un swm ym mhob rhan o'u hardal?

☐ Dylent

☐ Na ddylent



Pam ydych chi'n meddwl hyn?



Cwestiwn 25: Os yw cynghorau lleol yn gallu dewis beth i'w godi, ydych chi'n meddwl y dylem ddweud wrthynt y mwyaf a'r leiaf y gallant ei godi?

☐

Ydw

☐

Nac ydw



Pam ydych chi'n meddwl hyn?



Cwestiwn 26: Pa mor aml ydych chi'n meddwl y dylem wirio faint i'w godi am y lefi ymwelwyr?

☐ Pob blwyddyn

☐ Pob 2 flynedd

☐ Pob 3 blynedd

☐ Pob 5 mlynedd

☐ Arall, dywedwch os gwelwch chi'n dda:



Cwestiwn 27: Pa wybodaeth ydych chi'n meddwl y dylai darparwyr llety orfod rhoi i'r bobl sy'n gosod y lefi ymwelwyr, os yw'n cael ei godi:



a) Am bob ystafell a ddefnyddir, pob nos mae rhywun yn ei defnyddio?



b) I bob unigolyn, pob nos mae'n aros?



c) Fel swm penodol o gyfanswm y bil, fel 5c am bob punt?



Cwestiwn 28: Beth fyddai darparwyr llety yn gorfod ei wneud, i gael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i godi'r lefi ymwelwyr?

Megis, cael aelod o staff yn newid systemau cyfrifiadur.



Sut allai'r wybodaeth hon gael ei chasglu? Megis, allai e gael ei wneud pan fydd pobl yn llogi eu hystafelloedd?



Cwestiwn 29: Pa mor aml ddylai darparwyr llety orfod anfon gwybodaeth i'r bobl sy'n gosod y lefi ymwelwyr ynghylch y bobl maen nhw wedi codi arnynt?

☐

Pob mis

☐

Pedair gwaith y flwyddyn

☐

Dwy waith y flwyddyn

☐

Unwaith y flwyddyn



Pam ydych chi'n meddwl hyn?



Cwestiwn 30: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r sefydliad llywodraeth sy'n gyfrifol am gasglu treth allu...



a) Mynd i lety i edrych ar eu gwybodaeth treth?

☐ Cytuno

☐ Anghtuno



Pam ydych chi'n meddwl hyn?



b) Codi arian ychwanegol ar lety os nad ydynt yn dilyn y gyfraith ynghylch y lefi ymwelwyr?

☐ Cytuno

☐ Anghytuno



Pam ydych chi'n meddwl hyn?



c) Caniatáu i lety beidio â thalu weithiau, fel os oes llawer o arian yn ddyledus ganddynt ac y gallai fod rhaid iddynt gau.

☐ Cytuno

☐ Anghytuno



Pam ydych chi'n meddwl hyn?



Cwestiwn 31: Sut ddylai'r arian o'r lefi ymwelwyr gael ei wario?



Pam ydych chi'n meddwl hyn?



Cwestiwn 32: Ddylai fod rheolau am yr hyn mae'r arian o'r lefi ymwelwyr yn cael ei wario?

☐

Dylai

☐

Na ddylai



Pam ydych chi'n meddwl hyn?



Question 33: Sut ddylai pobl leol gymryd rhan mewn penderfynu sut i wario'r arian o'r lefi ymwelwyr?



Cwestiwn 34: Ddylai fod adroddiad bob blwyddyn am:

- Faint rydym wedi'i gael o'r lefi ymwelwyr, ac
- Ar beth ydym ni wedi gwario'r arian o'r lefi ymwelwyr?

☐ Dylai

☐ Na ddylai

☐ Pam ydych chi'n meddwl hyn?






Cwestiwn 35: Rydym yn meddwl y dylem ofyn yr un cwestiynau i bob cyngor lleol am yr hyn maen nhw'n ei wneud â'r lefi ymwelwyr.

Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â hyn?

☐ Cytuno

☐ Anghytuno



Cwestiwn 36: Pa wybodaeth ddylai ymwelwyr gael am y lefi ymwelwyr?



Cwestiwn 37: Rydym yn meddwl y dylai cyngorau lleol allu penderfynu a ddylent gael lefi ymwelwyr. Ydych chi'n cytuno neu'n anghtuno â hyn?

☐

Ydw

☐

Nac ydw



Pam ydych chi'n meddwl hyn?




Ddylai cyngorau lleol ofyn i bobl leol
cyn iddynt ddechrau lefi ymwelwyr?

☐ Dylent

☐ Na ddylent



Pam ydych chi'n meddwl hyn?



Cwestiwn 38: Beth ddylem ni wneud am bobl sydd wedi archebu lle i aros cyn i'r lefi ymwelwyr gael ei ddechrau?



Pam ydych chi'n meddwl hyn?



Beth allwn ni wneud i sicrhau nad yw ymwelwyr yn ceisio osgoi talu'r lefi ymwelwyr, os oes un?



Cwestiwn 39: Beth fyddai'r ffordd orau i wneud lefi ymwelwyr?

- ☐ Rhedeg gan gynghorau lleol
- ☐ Rhedeg gan Lywodraeth Cymru
- ☐ Rhedeg gan gynghorau lleol a Llywodraeth Cymru ar y cyd



Cwestiwn 40: Dywedwch wrthym beth yw eich barn am y syniadau hyn:

Beth fyddai'n dda am gynghorau lleol yn rhedeg lefi ymwelwyr?



Bewth fyddai'n ddrwg am gynghorau lleol yn rhedeg lefi ymwelwyr?



Beth fyddai'n dda am Lywodraeth Cymru'n rhedeg y lefi ymwelwyr?



Beth fyddai'n ddrwg am Lywodraeth Cymru'n rhedeg y lefi ymwelwyr?



Beth fyddai'n dda am gynghorau lleol a Llywodraeth Cymru'n gweithio ar y cyd i redeg y lefi ymwelwyr?



Beth fyddai'n ddrwg am gynghorau
lleol a Llywodraeth Cymru yn gweithio
ar y cyd i redeg y lefi ymwelwyr?

A large empty rounded rectangle box with a black border, intended for writing a response to the question above.

Cymraeg

Cwestiwn 41: Pa effaith ydych chi'n meddwl y byddai'r lefi ymwelwyr yn ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Cymraeg



Sut allem ni wneud i'r lefi ymwelwyr gael effaith dda ar yr iaith Gymraeg?

Cymraeg



Sut allem ni atal y lefi ymwelwyr rhag cael effaith ddrwg ar yr iaith Gymraeg?



Cwestiwn 42: Dywedwch wrthym sut allai'r lefi ymwelwyr gael ei newid i gynorthwyo pobl i:

- Ddefnyddio'r iaith Gymraeg
- Trin yr iaith Gymraeg yr un ffordd â'r iaith Saesneg



Cwestiwn 43: Oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ddweud wrthym?

Camau nesaf



Diolch am ateb y cwestiynau hyn.



Anfonwch hwy yn ôl atom erbyn
Dydd Mawrth, 13 Rhagfyr 2022.



Byddwn yn edrych ar eich atebion ac
yn meddwl am beth i'w wneud nesaf.



Gallai gymryd rhai blynyddoedd i
gychwyn lefi ymwelwyr.

Am ragor o wybodaeth



Gallwch ddysgu mwy am y lefi ymwelwyr ar ein gwefan:

<https://llyw.cymru/>



Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch cysylltwch â ni trwy:

- Post:
Tîm Lefi Ymwelwyr
Perthnasoedd Strategaeth Treth a
Rhynglywodraethol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ



- E-bost: VisitorLevy@gov.wales

Mae'r wybodaeth Hawdd i'w Darllen hon wedi cael ei chynhyrchu gan easy-read-online.co.uk